# Y DINESYDD

*PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH* MEDI 1977 RHIF 42


# Ffarwelio â Dau

**Ddiwedd Medi bydd Caerdydd yn colli un o'r goreuon — ymhob ystyr. Bydd y Parchedig Emlyn G. Jenkins, Gweinidog Ebeneser, Eglwys yr Annibynwyr, yn ymddeol ar ôl dros ddeng mlynedd ar hugain o wasanaeth nid yn unig i'w Eglwys a'i enwad ei hun ond i'r brifddinas ac i'r genedl gyfan. Bydd ef a Mrs. Jenkins yn gadael Caerdydd ac yn mynd i fyw yn nhref Aberteifi.**

Chwithig yw meddwl am Gaerdydd hebddo ef a'i briod gan y bydd gwacter mawr ar eu hôl mewn llawer cylch. Rhodd Sir Gâr i Gymru yw'r Parch Emlyn G. Jenkins. Ganed ef yn Cross Hands ond symudodd y teulu i Landeilo ac yno y codwyd ef i bregethu. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Gwendraeth a Cholegau'r Brifysgol yn Abertawe a Chaerdydd yn ogystal a'r Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin. Gwnaeth enw iddo'i hun yn ifanc fel pregethwr huawdl ac yn 1940 derbyniodd alwad i eglwysi Alltwalis a Phencader ddwy flynedd cyn gorffen ei gwrs diwinyddol yng Nghaerfyrddin. Yn Ionawr 1947 y dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Ebeneser, Caerdydd a thros y blynyddoedd bu'n bregethwr grymus ac eneiniedig ac yn weinidog doeth a llwyddiannus. Er iddo wneud llawer o waith cyhoeddus rhaid dweud iddo'i roi ei hun yn llwyr i waith y Weinidogaeth Gristnogol. Mae yn ei bregethu gyfuniad o'r nwyd efengylaidd ac o'r pwyslais cymdeithasol. Daeth yn bregethwr poblogaidd iawn a bu galw mawr am ei wasanaeth ar hyd a lled Cymru. Dan ei arweiniad ef daliodd Ebeneser ei thir yn eithriadol o dda ac y mae'r gymdeithas yno yn hynod o gynnes a byw a gweithgar. Mae'r Gweinidog bob amser wedi sefyll yn gadarn ar faterion moes a gŵyr pawb ym mha le y saif ar bynciau megis Cadwraeth y Saboth, dirwest a pheryglon alcohol, gamblo, rhyfel a defnyddio arfau lladd, y tyndra rhwng y du a'r gwyn a phroblemau arbennig Cymru.

Mae ganddo bersonliaeth hoffus, gyfeillgar, mae'n rhywun y gellir mynd ato mewn gofid a phrofedigaeth a bu bob amser yn gynghorwr doeth a chysurlawn. Ond gellir mynd ato i rannu llawenydd hefyd. Fel bugail effro bu'n hynod ofalus o'i braidd a nid oes ei well am ymweld â'r cleifion. Daeth llawer o anrhydeddau i'w ran ac yn 1975 ef oedd Llywydd Undeb yr Annibynwyr.

Dymunwn iddo ef ac i Mrs. Jenkins flynyddoedd lawer o'r gwasanaeth eithriadol y gall y ddau ei roi. Boed iddynt iechyd a phob hapusrwydd yn eu cartref newydd.



*Y Parch. Emlyn G. Jenkins*



Apwyntiwyd Mr Wyn Mears yn rheolwr twristiaeth newydd i Gyngor Croeso'r Deheudir o dan Fwrdd Croeso Cymru. Cychwynodd Mr Mears, sy'n chwech ar hugain oed, ar ei waith newydd ar Fedi 1af, a bydd yn gyfrifol am weinyddu Cyngor Croeso'r Deheudir, ac am gadw cysylltiad â'r Awdurdodau Lleol yng Ngwent, De Morgannwg, Morgannwg Ganol, Gorllewin Morgannwg, hen siroedd Caerfyrddin a Phenfro, a rhan o'r hen sir Frycheiniog.

Ganed Mr Mears yn Rhosllannerchrugog ond treuliodd ei flynyddoedd cynnar yng Nghaerdydd, a'i addysgu yno yn Ysgol Gymraeg Bryntâf ac Ysgol Uwchradd Cathays. Yng Ngholeg Celfyddyd a Thechnoleg Caergrawnt graddiodd gyda anrhydedd mewn Daearyddiaeth.

Apwyntiwyd ef yn Swyddog Ymchwil i Fwrdd Croeso Cymru ym 1972, a bu ar staff y Bwrdd hyd ei apwyntiad presennol. Dilynnodd gwrs arbennig M.Sc. (Twristiaeth) ym Mhrifysgol Surrey, ac arbenigo yn y rhagolygon presennol a dyfodol sydd i drefi glan môr Gymru. Ef yw'r Cymro cyntaf i ennill y radd hon o'r Brifysgol.

Y mae'r Swyddog Rhanbarthol newydd yn Gymro Cymraeg rhugl, ac ar hyd ei oes yn aelod o Urdd Gobaith Cymru. Ymysg ei ddiddordebau y mae chwareuon a'r ddrama. Brodor o Lanbedr Pont Steffan yw Mrs Mears, a bu hefyd yn byw yn Nyfed a'r De Ddwyrain. Yng Nghaerfyrddin y bydd eu cartre newydd.

# GOLYGYDDOL

Wrth lithro i mewn i'r gadair Olygyddol am y tro cyntaf carwn ddiolch o waelod calon i Siân Edwards am yr holl gymorth mae hi wedi ei roi i mi. Mater bach yw cymryd yr olwyn pan fo'r hyfforddwr wrth law. Diolch yn fawr iti a mwynha'r saib!

Hoffwn hefyd ddiolch i Siân, ar ran holl ddarllenwyr *Y Dinesydd*, am ei gwaith anhygoel o gynhyrchu papur mor ddiddorol am ddwy flynedd. Sylweddolaf, erbyn hyn, mai 'llafur cariad' fu'n cynnal *Y Dinesydd* am gyfnod maith — llafur cariad y golygydd a chriw ymroddedig ac ymdrechgar.

Brysiaf, felly, i apelio atoch chi i anfon newyddion, erthyglau, llythyrau ac, hyd yn oed, atgofion ataf ar gyfer y rhifyn nesaf.

Yn naturiol ddigon, cyfnod eithaf tawel yw Medi, a'r digwyddiad cyffrous diwethaf yw Eisteddfod Wrecsam. Un peth pwysig (ymhlith eraill llai pwysig) sydd wedi aros yn fy nghôf ar ôl yr Eisteddfod yw araith Llywydd Dydd Llun, y Bon. Dafydd Ellis Thomas. Yr oeddwn yn falch iawn o'i glywed yn pwysleisio y dylid cael *pob math* o ddeunydd yn yr iaith Gymraeg, ni all iaith fyw yn unig er mwyn celf aruchel neu gapel neu brifysgol. *Rhaid* cael llyfrau athronyddol ond hefyd rhaid cael cylchgronau ysgafn; rhaid cael difrifoldeb ond hefyd rhaid cael doniolwch.

Hoffwn innau gynnwys y doniol a'r difrifol, yr ysgafn a'r aruchel rhwng tudalennau'r *Dinesydd*. Rhaid i'r papur gyfleu *holl* newyddion a digwyddiadau'r ddinas a chredaf y byddai'r ddihareb yma'n arwyddair addas i'r *Dinesydd*:

RHYDD I BOB DYN EI FARN AC I BOB BARN EI LLAFAR.

## CALENDR MEDI

18 Eglwys Ebeneser PASIANT AR HANES YR EGLWYS.
19 Cwmni Theatr Cymru DOLL DOCTOR Theatr y Sherman 7.30.
19 Cymdeithas Gymraeg Caerffili BEIRDD Y CILIE T. Llew Jones. Ysgol Gymraeg Caerffili, 7.15.
20 Cwmni Theatr Cymru SAER DOLIAU Theatr y Sherman, 7.30 Bwffe yn dilyn.
24 Mudiad Ysgolion Meithrin CYFARFOD BLYNYDDOL 10.30a.m. Politechneg Cymru.
26-30 Urdd Gobaith Cymru WYTHNOS MR URDD Canolfan yr Urdd.

## HYDREF

1 Aelwyd yr Urdd RIFIW Theatr Bute 8.30.
2 Cwmni Drama'r Aelwyd PETHAU BRAU Theatr Sherman, 8.00.
9 Capel y Tabernacl GYMANFA GANU GYHOEDDUS & recordio Côr yr Eisteddfod.
15 Mudiad Meithrin TREN LLUNDAIN.

## EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

| | | |
|---|---|---|
| *Annibynwyr:* | *Bethlehem, Splott* | *11.00 & 6.00* |
| | *Bethel, Penarth* | *11.00 & 6.00* |
| | *Ebenezer* | *10.45 & 6.00* |
| | *Efail Isaf* | *10.30 & 6.00* |
| | *Gwaelod y Garth* | *10.30 & 6.00* |
| | *Minny Street* | *10.30 & 6.00* |
| | *Severn Road* | *11.00 & 6.00* |
| *Bedyddwyr:* | *Tabernacl, Hayes* | *11.00 & 6.00* |
| *Yr Eglwys Esgobol:* | *Dewi Sant* | *8.00, 11.00 & 6.00* |
| *Methodistiaid:* | *Bethel* | *11.00* |
| *Presbyteriaid:* | *Heol y Crwys* | *10.45 & 6.00* |
| | *Salem, Canton* | *10.45 & 6.00* |

Bydd y rhifyn nesaf o'r DINESYDD yn ymddangos ar y 10fed o Hydref. Deunydd ar gyfer y rhifyn erbyn MEDI 26, os gwelwch yn dda. Y cyfeiriad yw:
3 HEOL CAERDYDD, FFYNNON DAF.

# FFÔN RHAG SIOM

Yn aml iawn yma yng Nghaerdydd mae dyddiadau rhai cyfarfodydd neu weithgareddau yn gwrthdaro. Er mwyn ceisio osgoi hyn penderfynwyd cael un person yn gyfrifol am gadw 'CALENDR CANOLOG' o holl ddigwyddiadau'r dyfodol yn y ddinas. Felly anfonwch eich rhaglen gaeaf i:

158 Heol Dwyrain y Llyn,
Caerdydd CF2 5NQ.
FFÔN: Caerdydd 753695.

Trwy wneud hyn o flaen llaw cewch gyhoeddusrwydd yn y 'CALENDR' misol a byddwch yn gallu osgoi gwrthdrawiad â digwyddiadau eraill. Os ydych yn bwriadu trefnu unrhyw ddigwyddiad yng Nghaerdydd ymgynghorwch a'r "CALENDR CANOLOG" i ddechrau.

# O'R POST

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Siom fawr i mi yr wythnos yma oedd gweld cynulleidfa o lai na hanner cant (a thraean o'r rheiny yn oedolion) wedi dod i theatr yr Arena i weld Sioe Teliffant. Mae'n wir fod rhai o'r perfformiadau pnawn wedi'u coefnogi yn fwy teilwng gyda rhan helaeth o'r cynulleidfaoedd yn cynrychioli ysgolion o'r Cymoedd.*

*Mae 'Teliffant' erbyn hyn wedi ennill ei blwy ymysg y goreuon o raglenni teledu Cymraeg i blant ac mae'n cystadlu'n gyfartal ag unrhyw raglen Saesneg o'i math. Mae plant yn feirniaid di-ragrith a nhw sy'n penderfynu llwyddiant rhaglen.*

*Beth sy'n bod arnom ni yng Nghaerdydd? Ble 'roedd y cannoedd o blant sy'n mynychu ein hysgol gynradd a'r ysgolion Meithrin Cymraeg? Mae'r Rhaglen yn mynd ar daith i ganolfannau eraill Gymru a gallaf broffwydo yn eithaf sicr y bydd cefnogaeth frwd iddi yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd hynny.*

*Tybed a ydym yn magu cenhedlaeth o blant fydd, fel ni ein hunain, yn ymwelwyr dieithr i berfformiadau yn Theatrau ein Prifddinas?*

*Yn ddiffuant,*

TEGWEN EVANS.

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Gair byr i gywiro'r rhestr enwau a gyhoeddwyd yn eich rhifyn diwethaf yng nghyswllt llun disgyblion Ysgol Bryntaf. Yn y rhes flaen, y bumed o'r chwith yw Gwenda Davies, nid Beti Lyn Jones. Mae Beti yn y rhes gefn, yr ail i'r dde.*

*Yn gywir,*

DENNIS FRANCIS,
Heol y Felin, Rhiwbeina.

**CLWB TŶ'R CYMRY — CAERDYDD**
(11 Heol Gordon, Caerdydd)
Noson Agoriadol 1977-78

NOS LUN, MEDI 26ain 1977, 7.00 o'r gloch

Cwrs Gaeaf 20 sesiwn trwy arlwyaeth
Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd.
'THEMÂU DIDDOROL YN HANES CYMRU'
Tiwtor: *Dr. J. Gwynfor Jones*

Aelodaeth 1977-78: Lleiafswm £0.50
(Pensiynwyr a Myfyrwyr Ysgol a Choleg: £0.25)
Ffi Adran Efrydiau Allanol: £5.00

# *Newyddion Eisteddfodol*

### Gwobrau Coffa.

Mae dau a fu'n weithgar yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ac a fu farw yn gynharach eleni, i gael eu coffau gan wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn nesaf.

Bu farw Mrs. Olwen Walters mewn damwain awyr yn Cuba ym mis Mai. 'Roedd hi yn aelod o Bwyllgor Llên yr Eisteddfod, ac mae ei phriod, Mr. Llewelyn Walters a'r teulu, yn rhoi gwobr er cof amdani yn y gystadleuaeth am erthyglau teithio yn Ffrainc.

'Roedd Mr. Rollo Charles yn aelod o Bwyllgor Celf a Chrefft yr Eisteddfod. Mae ef yn cael ei goffau gan wobr a gyflwynir gan aelodau'r Pwyllgor hwnnw am waith arlunio yn Adran y Gelfyddyd Gain.

### Record Côr yr Eisteddfod

Mae Côr Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, dan arweiniad Mr. Alun Guy, wedi derbyn gwahoddiad gan Gwmni Recordio Sain i recordio rhaglen o ddeunaw o emynau. Bydd yr emynau'n cael eu recordio mewn Cymanfa Ganu gyhoeddus sydd i'w chynnal yng Nghapel y Tabernacl, Caerdydd, ar nos Sul, yr ail o Hydref, am 7.30 p.m.

Bydd y Côr yn ailddechrau ymarfer ym mis Medi. Yn ôl yr ysgrifennydd fe ellir derbyn rhai cantorion eto i'r Côr. Ond mae gofyn i chi frysio!

### Swyddfa'r Eisteddfod.

Gan nad oedd ond un ystafell at wasanaeth yr Eisteddfod ym Mharc Heath bu chwilio dyfal am swyddfa arall. Bellach mae'r Swyddfa wedi symud i 24, Windsor Place, Caerdydd. O'r diwedd hefyd mae gan y Swyddfa ei rhif ffôn ei hunan: 398316.

### Llety.

Os oes gennych chi le i letya ymwelwyr dros yr ŵyl brysiwch i'r Swyddfa i roi gwybod i'r Pwyllgor Llety a Chroeso!

### NEWID.

Mae Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn torri tir newydd yn yr Adran Adrodd drwy gynnal cystadleuaeth ddarllen. Fe fydd gofyn i'r cystadleuwyr ddarllen detholiad byr o "William Jones" gan T. Rowland Hughes. Ond er eu bod yn gwybod ymlaen llaw mae o'r llyfr hwnnw y dewisir y darn prawf, y beirniaid yn y rhagbrawf fydd yn nodi'r union ddarn fydd i'w ddarllen. Bydd y wobr yn £15.

Yn Eisteddfod Caerdydd hefyd fe fydd newid yn amodau'r gystadleuaeth adrodd am wobr goffa Llwyd o'r Bryn. Yn y gorffennol buddugwyr y genedlaethol yn unig oedd yn cael cystadlu am y wobr hon, ond y tro hwn bydd y gystadleuaeth yn agored i unrhyw un dros 18 oed. Bydd dau ddarn prawf — "Awyrblandy Sain Tathan" gan Dr. Ionwerth C. Peate, a detholiad o "Pigau'r Ser" gan J. G. Williams, Bydd gwobr ariannol o £20 yn mynd gyda'r Tlws.

Ym mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn mae'r cyfeilyddion yn cyflawni eu priod waith ar y llwyfan o ddydd i ddydd yn cyfeilio i'r unawdwyr ac ati. Ond yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd y flwyddyn nesa fe gaiff y cyfeilyddion gyfle newydd i brofi eu dawn. Oherwydd am y tro cyntaf eriod fe drefnwyd cystadleuaeth cyfeilio ar y piano. Fe fydd gofyn i'r cystadleuwyr gyfeilio i un darn gosod a gyhoeddwyd ymlaen llaw (Ymdaith Serch gan Frank Bridge) a Chyfeilio cân ar y pryd. Yn y prawf terfynol ar y llwyfan, Kenneth Bowen fydd yr unawdydd. Ceir gwybodaeth ychwanegol o Swyddfa'r Eisteddfod.

Ar ddechrau ei ail flwyddyn o weithgarwch mae Cor Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd wedi ricriwtio nifer mawr o aelodau newydd. Cynhaliodd y côr ei ymarferiad cyntaf nos Sul Medi 4ydd, a gwelwyd ar unwaith fod angen stafelloedd helaethach ar gyfer gwaith y flwyddyn. Hyd yn hyn bu'r côr yn ymarfer yn neuadd Ysgol Bryntaf bob nos Fercher, ond trefnwyd yn awr i gyfarfod am 7.30p.m. bob nos Fercher yn Neuadd Fawr ysgol Cantonian yn y Tyllgoed, gan barhau i ymarfer yn Eglwys y Tabernacl ar yr Hayes bob nos Sul am 7.45p.m.

Dywedodd yr arweinydd Alun Guy ar ôl y rihyrsal cyntaf ei fod wrth ei fodd i weld cynifer o ddynion a chynifer o leisiau ifanc wedi ymuno a'r côr. Byddan nhw'n dechrau ar unwaith ar y gwaith o baratoi Gwledd Belsassar (William Walton) a Phedwar Darn Cysegredig (Verdi) ar gyfer cyngerdd nos Iau yr Eisteddfod yn y Pafiliwn Mawr. Mae'r cyfieithiad o'r Pedwar Darn Cysegredig ar hyn o bryd yn cael ei baratoi gan y Parchedig O.M. Lloyd Dolgellau. Cyfieithwyd *Gwledd Belsassar* gan Dyfnallt Morgan o dan olygyddiaeth Rowland Wyn Jones. Dywedodd Alun Guy ei fod yn hapus iawn gyda'r trosiad.

Mae dwy gyfeilyddes gan Gôr yr Eisteddfod: Nia Wyn Williams sy'n athrawes yng Nghaerffili, ac Eilonwy Jenkins, sy'n ddirprwy brifathro Ysgol Llanhari. Mae Eilonwy Jenkins hefyd yn ddirprwy gor feistr.

Un fantais fawr gan Gôr Eisteddfod Caerdydd yw eu bod wedi gallu cyd-ymarfer o'r dechrau. Fel y dywedodd Alun Guy: "Llyffethair angenrheidiol ydy nifer o gorau lleol mewn ardal lle mae'r boblogaeth yn wasgaredig, ond ni ellir byth gael cystal undod lleisiol wrth gyfuno nifer o gorau bychain. Mantais arall yn ol Alun Guy yw bod profiad helaeth o ganu corawl gan y mwyafrif o'r aelodau, a hefyd y gallu i ddarllen hen nodiant.

*DIOLCH O GALON I'R CYFEILLION A FU'N BRYSUR YN DOSBARTHU COPIAU O'R DINESYDD YN YSTOD EISTEDDFOD WRECSAM. GOBEITHIO ICHI HEFYD GAEL AMSER I'W DDARLLEN!*

### LLONGYFARCHION

...i'r Fonesig Einir Wyn Davies am ddod yn gyntaf yn y ddawns werin unigol yn Eisteddfod Wrecsam.

...i'r Fonesig Pat Griffiths ar ennill y wobr gyntaf i adroddwyr dros 25 yn Eisteddfod Wrecsam.

...i Barti Dawnsio Gwerin Aelwyd Caerdydd am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth ddawnsio gwerin yn Wrecsam.

...i Gôr Cerdd Dant Aelwyd Caerdydd am berfformiad graenus, fel arfer, yn Wrecsam.


...i Mona Meirion a Nan Jones am gyhoeddi llyfr o alawon telyn gwreiddiol, "Bro Mebyd".

...i'r Bon. Morgan Mainwaring ar gael ei ethol yn Llywydd Y Gymanfa Gyffredinol.

...i Iwan Humphreys ar achlysur ei briodas ar y 10fed o Fedi.

### PRIODAS

Eglwys Salem, Canton — Ar yr 20fed o Awst priodwyd Jill Williams ac Alan Dainton. Merch Mr a Mrs Tudor Williams, Ely Road, Llandâf, yw Jill. Daw Alan o Fryncethin, Penybont. Bydd y ddau yn ymgartrefu yn Dungeness, ger Folkston.



# TUDALEN Y DYSGWYR

*Mae hi'n ddechrau blwyddyn ysgol eto ac mae llawer ohonoch yn meddwl am ddechrau dysgu Cymraeg neu wella'ch Cymraeg yn ystod y Gaeaf yma. Mae digon o gyfle nawr i bobl ddysgu Cymraeg mewn gwahanol ganolfannau.*

*Mae Canolfan yr Urdd, yn Heol Conwy, yn enwog am ei dosbarthiadau erbyn hyn. Ewch yno ar nos Fercher a gofynwch am y gŵr ifanc amryddawn hwnnw, y Br. Gwilym Roberts ac rwy'n siŵr y bydd croeso a lle i chi mewn dosbarth yno.*

*Mae Wlpanau ar ddechrau hefyd ac os am fanylion cysylltwch â'r Dr Meredydd Evans yn Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol yng Nghaerdydd.*

*Er fod y tâl cofrestru yn uchel iawn yn awr yng nghanolfanau oedolion y ddinas, rwy'n siwr y cewch werth eich arian yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau hyn. Mae yna nifer o ddosbarth-iadau llewyrchus yng nghanolfan Oedolion Yr Eglwys Newydd ar gyfer pobl o bob safon o ddysgu. Os ydych am wybod rhagor am y rhain cysylltwch â'r Is-Warden yno Mr Len Williams sy'n Gymro Cymraeg a diddordeb arbennig yng ngwaith y Dysgwyr. Wrth gwrs mae dosbarthiadau ymhob Canolfan Oedolion yn y ddinas — os am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Adran Addysg Oedolion yn Neuadd y Ddinas.*

*Mae'r Eisteddfod Gened-laethol yng Nghaerdydd yn 1978 ac mae lle arbennig i ddysgwyr yn yr Eisteddfod erbyn hyn. Gobeithio bydd athrawon yn tynnu sylw'r dysgwyr at gystadlaethau sydd ar eu cyfer yn y Llyfr Testunau (sydd i'w gael yn Siop y Triban, wrth gwrs).*

*Fe fydd llawer o bethau arbennig i ddysgwyr yn ystod misoedd y Gaeaf yma i'ch helpu i ddysgu'r iaith yn ddigon da i fwynhau'r Eisteddfod yn llawn.*

*Bydd Cymdeithas y Dysgwyr yn ail-gydio yn y gwaith o baratoi Rhaglen gymdeithasol lawn ar eich cyfer cyn hir a braf yw clywed hefyd am ail-ymddangosiad 'Yr Agoriad'.*

*Mae cwrs pen-wythnos yn le da i wella ac i ddefnyddio'ch Cymraeg. Mae dau gwrs y gwn i amdanynt ar hyn o bryd:- Tachwedd 11-13eg: Pen-wythnos i'r teulu i ddysgu Cymraeg yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Os ydych am fanylion Ysgrifen-nwch ata i — 6 Ridgeway, Llysfaen, Caerdydd.*

*Rhagfyr: Pen-wythnos yn y Dyffryn. Ysgrifennwch at y Warden, Ty'r Dyffryn, San Nicolas, Ger Caerdydd. Mae rhai pobl wedi cofrestru'n barod, felly brysiwch!*

**Cofiwch** *am Siop Siarad ar Radio Cymru VHF a 'Radio Wales Medium'. Mae'r darllediad cyntaf Nos Fercher, Hydref 4ydd am 6.30. Mae'r rhaglen hon ar gyfer dysgwyr sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg am gyfnod go hir. Os oes diddordeb gennych chi i gyfrannu i'r rhaglen hon cysylltwch â Mr Wynne Lloyd yn y BBC, Llandâf.*

*Rwy'n gwneud apêl ar ddechrau pob blwyddyn am gyfraniadau i'r dudalen hon oddiwrth ddysgwyr ac athrawon hefyd — felly beth amdani? Edrychaf ymlaen at dderbyn unrhyw beth a fydd yn sicrhau amrywiaeth i'r dudalen hon.*

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-Ddwyrain Cymru.

# CADEIRYDD YN FFYDDIOG

Mae llawer o feirniadu wedi bod ar gynnwys a thechneg arddangos y pafiliwn celf a chrefft yn eisteddfodau diweddar Cymru, ond o leiaf yng Nghaerdydd bydd gan y pwyllgor lleol adeilad newydd, addas, i arddangos cynnyrch y cystadlaethau. Yr ydym yn ffodus yn y Brifddinas fod gennym nifer fawr o artistiaid a chrefftwyr proffesiynnol ar y Pwyllgor Celfyddyd a Chrefft ac mae'r holl aelodau yn awyddus dros ben i sicrhau fod safonau yr arddangosfa o fewn y pafiliwn newydd o'r safon uchaf posibl. Mae rhai o'r gwobrau a gynigir yn y cystad-laethau yn dipyn uwch nac yn y gorffennol ond teimla'r pwyllgor ei bod yn bwysig i ddenu'r goreuon i gystadlaethau'r Eisteddfod. Dyma'r unig ffordd i sicrhau safonau proffesiyn-nol ar faes yr Eisteddfod.

Yn Eisteddfod Caerdydd, mae'r wobr gyntaf am arlunio wedi ei rhoddi gan aelodau'r pwyllgor fel Gwobr Goffa Rollo Charles, Ceidwad Celfyddyd yr Amgueddfa Genedlaethol, a fu farw eleni. Yr oedd Rollo Charles yn aelod o'r pwyllgor o'r cych-wyn ac er nad oedd yn Gymro, mi gyfrannodd yn helaeth i ddatblygiad celfyddyd gain yng Nghymru ac yn ei farwolaeth sydyn mi gollodd y pwyllgor un o'i aelodau mwyaf selog a brwdfrydig.

Fel arfer mae cystadlaethau yr Adran Gelfyddyd a Chrefft wedi eu dosbarthu i bum categori — Celfyddyd Gain, Crefft a Dylunio, Ffotograffiaeth a Ffilm, Pensaerniaeth ac Ysgolion. Yn ogystal cynigir nifer o gystadlaethau mewn cyd-weithrediad ag adrannau eraill; er enghraifft ymysg y cystadlaethau ceir un i gynllunio clawr i'r *Gwyddon-ydd* ac un arall i baratoi Geirfa Gymraeg o dermau Pensaerniaeth ac Adeiladu. I'r dyfeiswyr cynigir gwobr sylweddol am ddyfais wyddonol neu dechnegol ac mae cystadleuaeth i oedolion a phlant i ddyfeisio gwrthrych gan ddefnyddio hen ddefnyddiau.

Yn Eisteddfod Caerdydd mae'r pwyslais ym myd crefft ar ddylunio diwydiannol; i edrych tuag at y dyfodol yn hytrach na'r gorffennol. Felly ni cheir cystadlaethau traddodiadol i gynhyrchu llwyau serch na choesau rhofiau a fyddai llawer mwy addas i gefndir Cymru wledig nag i gefndir dinesig a diwydiannol. Un o'r prif gystadlaethau ym myd crefft yw cystadlaethau i ddylunio cadair freichiau esmwyth, a all fod yn addas i gartref modern. Cynhyrchir y cynllun buddugol gan gwmni Christie Tyler Cyf. a gyfrannodd y wobr am y gystadleuaeth. Gobeithia'r Pwyllgor trwy osod testunau o'r math yma fod modd i'r Eisteddfod gyfrannu i ddyfodol economaidd y genedl.

Ym myd pensaerniaeth hefyd, edrych ymlaen i'r dyfodol yw bwriad y cystadlaethau. Rhoddir gwobr sylweddol am gynllunio estyniad i Ganolfan Dinesig Caerdydd ac un arall am gynllunio Tŷ Bwyta ar Ynys yr Hayes ynghanol y ddinas.

Heblaw am y cystadlaethau, mi drefnir nifer o arddangos-feydd arbennig yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays cynhelir arddangosfa bwysig o gerflunwaith, tra ar faes yr Eisteddfod ceir arddangos-feydd o grochenwaith cyfoes ac o fodelau o bob math. Mewn cysylltiad â chymdeithas y Penseiri yng Nghymru trefnir arddangosfa o bensaerniaeth ddiweddar Cymru, ac wrth gwrs fel yn y gorffennol rhoddir Medal Goffa Alwyn Lloyd am yr adeilad gorau a gwblhawyd yn ddiweddar yng Nghymru.

Wrth gwrs fel pob pwyllgor arall, mae'r Pwyllgor Celf-yddyd a Chrefft yn gofidio yn fawr am gostau aruthrol yr Eisteddfod. Eisoes mae diwydiant wedi bod yn hynod garedig tuag at yr Eisteddfod, ac mae'r artistiaid ar y pwyllgor wedi cyfrannu swm sylweddol tuag at y gwobrau trwy gynhyrchu printiau o'u gwaith i'w gwerthu i'r cyhoedd.

GERAINT JENKINS,
Cadeirydd,
Pwyllgor Celfyddyd a Chrefft.

**CROESO FEDI! —** Dyma ail afael yn y gweithgareddau ar ôl seibiant. Ydych chi wedi ymaelodi neu ail ymaelodi â'ch cymdeithas ymladd ceiliogod, neu'ch clwb trin bodia traed eto?

'Rwy'n bwriadu dechrau dosbarth nos ar y dechneg o giwio, boed y ciw am fara neu am gannwyll. Dosbarth Cymraeg fydd hwn, wrth gwrs, er nad oes gobaith cael llawer o steddfodwyr ffyddlon i ymuno. Wedi'r cyfan 'does neb yn gwybod mwy am giwio na ni'r Steddfodwragedd.

'Rwy'n siwr y bydd llai o giwio yn y Steddfodau o hyn ymlaen os yw darllediadau'r BBC a HTV i barhau fel oedd yn Wrecsam-pawb wedi eu gliwio i'w setiau teledu a radio. Rhaid diolch i'r ddau gwmni am ddarllediadau derbyniol iawn o Wrecsam — o'r diwedd!

Uchafbwynt y darllediad i mi oedd ffraethineb Hywel Gwynfryn. Soniodd am Gôr yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Butlins – "Camp yn wir," meddai!... Pan ddywedodd Alun Evans mai arwydd mawr y Steddfod oedd bawd i fyny, beth feddyliech chi ddywedodd Hywel?

"Swnio'n boenus iawn i mi." — Hogyn drwg ynte.

## DWYLING STEDDFOD CAERDYDD

Mi ês i'r Steddfod dydd Iau a thra 'roeddwn yn sefyll yn un o'r cynffonnau cefais gyfle i ddarllen, a dysgu ar fy nghôf bron, restr Testunau Eisteddfod Caerdydd. Cafodd yr hysbysebion torri syched (y peth olaf yr oeddwn am ei ddarllen gan gofio'r amgylchiadau) dipyn o gyhoeddusrwydd yn y wasg, yn do? Er nad oes gennyf farn arbennig ar y busnes yma — hynny yw, 'does neb wedi gofyn am fy marn i, synnaf braidd fod yr hysbysebion Saesneg, sy'n britho'r llyfryn, wedi llithro heibio yn ddigon disylw. Yn wir, mae dros un rhan o dair o'r hysbysebion yn Saesneg. Ond dipyn o grafiad pen oedd penderfynu iaith y mwngrel yma:

"...the best bargen in any iaith for newyddion and views about Gwent..." Mae'r anghysondeb rhwng un hysbyseb a'r llall yn gwneud i rhywun feddwl nad oes gan yr Eisteddfod, na rhyw bwyllgor sy'n gweithredu drosti, unrhyw reolaeth ar iaith a ddefnyddir gan yr hysbysebwyr.

## colofn sbectol SIAN *

### SIOPAU CAERDYDD

Tra bo 'David Morgan' yn datgan — "Eich bodioni chi yw'n polisi ni," mae'r ferch drws nesaf yn dymuno ateb cais am erthygl fechan ar ei gwaith fel rheolwraig yn y modd canlynol!

Thank you for your letter concerning an article for "Dinesydd".

I do appreciate your kind offer, but regret that I must refuse on this occasion.

Yours sincerely,
HOWELLS OF CARDIFF.

M. Barnes. (Mrs).
General Manager.

Mae pethau'n edrych yn dywyll iawn. O damia, dyna'r golau wedi diffodd — SWEB yn becso dam!

Cnoc! Cnoc!

Pwy sy 'na?

Ann!

Ann Pwy?

— Annwyl Steddfodwyr

CYRHAEDDWCH
78,500
O DDARLLENWYR
Ffôniwch i gael ein
telerau hysbysebu
CAERDYDD 396262

Trefnydd/Organiser:

J Idris Evans
Swyddfa'r Eisteddfod
24 Windsor Place, CAERDYDD CF1 3BY
Ffôn: (0222) 398316/7

Yn ystod y pythefnos cyntaf ym mis Hydref, bydd casglyddion yn mynd o ddrws i ddrws yn y ddinas i gasglu arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf.

Mae rhwng 90,000 a 100,000 o dai yn y ddinas, ac mae'r gwaith o rannu'r amlenni a'u casglu wedi ei rannu rhwng dwsinau o bwyllgorau lleol.

Gyda'r amlenni fe ddosberthir copïau o lythyr apêl gan Mr.Emyr Currie-Jones, cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod:

# GOLWG AR LYFRAU DIWEDDAR

**O gynnyrch prin yr Eisteddfod eleni, un o'r cyfrolau pwysicaf i'w cyhoeddi yw cyfrol hardd Gwasg Gomer o deyrnged i Waldo (Golygydd: James Nicholas). Dyma gasgliad cyfoethog a sylweddol (275 tud) o ysgrifau sy'n ymdrin â phob agwedd ar waith ac ar gymeriad amlochrog y bardd a'r gweledydd hwn.**

Yr athro ysbrydoledig; y dyn oedd yn caru plant, hwyrach oherwydd "fod rhyw ddarn o'i gyfansoddiad nad oedd erioed wedi gorffen bod yn blentyn." (T. Llew Jones, tud 30), ac a ysgrifennodd gerddi dihafal ar eu cyfer; y bardd a gyfansoddodd rai o'n cerddi mwyaf dwysfyfyriol ac ysbrydol, cerddi y mae nifer o'u delweddau a'u hymadroddion eisoes "yn rhan o ymwybyddiaeth greadigol pob Cymro llengar" (Alun Llywelyn-Williams, tud 104), yn wir yn rhan o wead yr iaith Gymraeg ei hun; y gŵr a oedd eto â hiwmor a digrifwch yn rhan annatod o'i bersonoliaeth. Fel y dywed D. Tecwyn Lloyd (tud 60), "gwadu llawenydd Waldo fyddai gwadu ei fodolaeth", er bod ei gyfaill mynwesol, W.R. Evans yn ein rhybyddio rhag gorbwysleisio'r elfen lawen hon ar draul eraill, gan roi darlun anghytbwys a rhanedig felly. Medd W.R. (tud 69), "Gwell gennyf gredu fod ei ddifrifwch yn sail i'w hiwmor, a'i ddigrifwch, yn aml yn wedd ar ei ddifrifwch".

Prin y gellir gwneud mwy na chyffwrdd ar gyfoeth y gyfrol mewn adolygiad byr fel hwn. Da cael John Rowlands i'n hatgoffa nad sloganau optimistiaeth rwydd mo cerddi Waldo, er gwaethaf ei dderbyn yn nawddsant dyladwy gan lawer o genedlaetholwyr erbyn hyn; cawn gipolwg ar rai o'r dylanwadau a foldiodd syniadau, etheg a chredo'r bardd yn ysgrif dreiddgar Pennar Davies ar Feddylfryd Waldo Williams. Dylid cyfeirio'n arbennig hefyd at ysgrif sylweddol yr Athro J.E. Caerwyn Williams, "Yng Nghysgod Dail Pren", a'r tair ysgrif gan Waldo ei hun, sy'n taflu goleuni ar rai o'i ddaliadau mwyaf sylfaenol.


Bardd arall o Gymro, ond un tra gwahanol i Waldo, oedd Dylan Thomas. Adwaith cyntaf dyn wrth agor cofiant swmpus Paul Ferris i'r bardd yw tybio faint o bethau newydd sydd ar ôl i'w dweud am y cymeriad hynod hwn sydd wedi ei ddadansoddi, ei ddadelfennu, ei groeshoelio a'i droi tu chwith allan gan gynnifer o feirniaid llenyddol a Dylan-garwyr ledled y byd. Y mae Ferris wedi llwyddo i ddod o hyd i beth wmbredd o ddeunydd newydd, "an untapped hoard of work-sheets, doggerel verse, lecture notes and miscellaneous jottings in notebooks and on scraps of paper," meddai yn ei ragymadrodd. Ac eto, bron nad â dyn i deimlo erbyn hyn na wna ffeithiau newydd ddim byd ond drysu'r darlun yn fwy fyth, ac ychwanegu haen arall at yr amwysedd a'r dirgelwch bwriadol a feithrinid i'r fath raddau gan y bardd ei hun.

Y mae gan Paul Ferris arddull hynod ddarllenadwy; yn frodor o Abertawe ei hun, y mae'n ysgrifennu'n arbennig o dda am yr Abertawe a adnabu Dylan yn ei lencyndod. Cawn ein tywys ganddo o gefn gwlad Caerfyrddin, lle mae gwreiddiau'r teulu, drwy Abertawe a Llundain i'r diwedd anochel yn America. Nid darllen difyr mo llawer o droelliadau'r daith ond i'r neb sydd â diddordeb mewn ceisio deall y dyn cymhleth hwn, a'r cymhelliant a'i gyrrai i geisio *bod* yn fardd (yn fwy nag i gyfansoddi cerddi, hyd yn oed), y mae'r gyfrol hon yn mynd â ni'n agosach at hynny nag anad yr un cofiant arall a ymddangosodd hyd yn hyn.

O'r dewin-fardd Dylan Thomas at ddewiniaid Cymreig eraill yn llyfr eithriadol ddiddorol Kate Bosse Griffiths ar Fyd y Dyn Hysbys. Taniwyd diddordeb yr awdur yn y pwnc hwn pan alwyd ei sylw at lyfr o nodiadau cyfrin a ysgrifenwyd yn ei law ei hun gan Ddyn Hysbys o Sir Ddinbych y ganrif ddiwethaf. Aeth ei hymchwil â hi ymlaen at wŷr hysbys enwog eraill, megis Dr John Harries, Cwrtycadno, a diddorol nodi'r tebygrwydd rhwng ei ddulliau ef o wella cleifion a'r dulliau a arferir gan seiceiatryddion heddiw (gweler tt 28-29).

Er bod yma bennod ar y Gelfyddyd Ddu, byrdwn neges yr awdur yw'r daioni a wnai'r gwyr hysbys hyn: er y gallent niweidio pobl, dadwneud swynion drwg, gwella cleifion, darogan y dyfodol ac ati oedd eu prif swyddogaeth, ac fe'u perchid am hynny gan y werin bobl er gwaethaf y bytheirio yn eu herbyn gan grefyddwyr a pharchusion. Trysorfa o lyfr yw hwn i'r neb a ymddiddoro yn ochr fwy cyfrin a llai hysbys ein hanes ni yng Nghymru.

Dewin enwog arall o dras Gymreig oedd Dr John Dee, swynwr enwog cyfnod y frenhines Elisabeth I, un o'r llu o Gymry a gyrhaeddodd safleoedd o bwys yn hanes Lloegr y cyfeirir atynt gan





Gwyn Williams yn ei arolwg bersonol ac unigryw ar hanes Cymru. Y mae'r gyfrol hon yn ein tywys ar garlam o gyfnod y Dyn Palaeolithig hyd y dydd heddiw, gan dynnu moeswersi a chyffelybiaethau â sefyllfa Cymru heddiw bob cam o'r ffordd. Er enghraifft y mae'n sôn (ar dud 69) am effaith y priordai Normanaidd a blannwyd dros Gymru, rhan o gynllun y Normaniaid i wanhau ysbryd y Cymry i wrthsefyll y goresgyniad fel "a plan...as effective as the destruction of the Druids of Môn by Suetonius Paulinus or, some would say, comparable to the effect of

television in English on Wales today." Y mae ergydion o'r fath yn britho'r gyfrol.

Hwyrach mai at Saeson yr anelir y gyfrol yn bennaf ond am unwaith, dyma lyfr o'r fath nad yw yn eu gwahodd i Gymru â breichiau agored ond yn rhoi croeso amodol dros ben: dewch, os mynnwch, ond perchwch ein hiaith, ein ffordd o fyw — ein gwahaniaeth. A gobeithio y bydd i bawb sydd a wnelont â'n Prifysgol drist, yn Saeson haerllug eu hagwedd ac yn Gymry di-asgwrn gefn, sydd rhyngddynt fel pe baent yn benderfynol i'w Seisnigeiddio a'i sbaddu'n llwyr, nodi geiriau Gwyn Williams ar dudalen 190: "I have been, as student or teacher, a member of six universities and the University of Wales is the only one of these which did not serve its own culture and language."

Y mae Gwyn Williams yn talu cryn dipyn o sylw i bwysigrwydd y porthmyn, "llongau Sbaen" yr Archesgob John Williams (tud 163) yn eu swyddogaeth ddeublyg o ddwyn cyfoeth a newyddion yn ôl i Gymru o'r byd tu allan. Mor braf felly cael cyfrol gyfan yn ymwneud â'r gwŷr diddorol hyn a'u ffyrdd yng Nghymru, sef llyfr Fay Godwin a Shirley Toulson ar *The Drover's Roads of Wales.*

Y mae'r penodau agoriadol ar y porthmyn eu hun, ar natur y wlad ychydig ganrifoedd yn ôl, a'r modd y gellir olrhain yr hen lwybrau, yn ddiddorol tu hwnt. Llawlyfr ymarferol yw gweddill y gyfrol sy'n rhoi cyfarwyddiadau manwl a mapiau sy'n dangos lle'n union y rhed y llwybrau hynafol hyn, y tu hwnt i briffyrdd prysur ein gwlad, llwybrau sydd, lawer ohonynt, yn dyddio yn ôl i'r cyfnod cyn-Rufeinig. Gyda'r gyfrol hon yn eich llaw, gellid mynd i grwydro yn ôl mewn amser a darganfod Cymru gwbl wahanol o dan eich traed — syniad gwych am wyliau cerdded diddorol a chyffrous.

Y mae lluniau Fay Godwin yn gaffaeliad gwych i'r gyfrol fendigedig hon, a thrwy gyd-ddigwyddiad ffodus, gellir gweld arddangosfa o'i gwaith ffotograffaidd hi (gan gynnwys lluniau o'r gyfrol hon) yn ORIEL, Heol Siarl, Caerdydd hyd y cyntaf o Hydref. Da chi, peidiwch â cholli'r cyfle.

**Waldo**, *Gol. James Nicholas, Gwasg Gomer, £3.50.*

**Dylan Thomas**, *Paul Ferris, Hodder & Stoughton, £7.50.*

**Byd y Dyn Hysbys**, *Kate Bosse Griffiths, Y Lolfa, £1.75.*

**The Land Remembers**, *Gwyn Williams, Faber, £5.95.*

**The Drovers' Roads of Wales**, *Fay Godwin a Shirley Toulson, Wildwood House. £5.00.*



**COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD.**
**ADRAN EFRYDIAU ALLANOL**
**Cyrsiau ar gyfer y gaeaf, 1977-78.**

**CYNGANEDDU**
10 darlith gan T. ARFON WILLIAMS. Canolfan Adran Efrydiau Allanol, 38 Heol y Parc. Dechrau: Hyd. 3. 7-9p.m. Tâl: £2.50.
**IWERDDON DDOE A HEDDIW**
20 darlith gan MORFUDD E. OWEN ac eraill. Adeilad y Dynoliaethau. Dechrau: Hyd. 3. 7-9p.m. Tâl: £5.00.
**THEMAU DADLEUOL YN HANES CYMRU**
20 darlith gan J. GWYNFOR JONES. Tŷ'r Cymry, Gordon Road. Dechrau: Medi 26. 7-9p.m. Tâl: £5.00.
**SAUNDERS LEWIS: BARDD A DRAMODYDD**
20 darlith gan MEREDYDD EVANS. Adeilad y Dynoliaethau. Dechrau: Hyd. 4. 7-9p.m. Tâl: £5.00.
**SAFLE'R WRAIG YNG NGHYMRU**
10 darlith gan GWEN AWBERY a BREC'HED PIETTE. Adeilad y Dynoliaethau. Dechrau: Hyd. 6. 7-9p.m. Tâl: £2.50.
Am ragor o wybodaeth cysyllter â'r CYFARWYDDWR, ADRAN EFRYDIAU ALLANOL, 38 HEOL Y PARC, CAERDYDD.

*Siop Lyfrau*

**Oriel**

53 Heol Siarl, Caerdydd

**AR Y LLAWR CYNTAF:-**
Llyfrau Cymraeg, Eingl Gymraeg, Barddoniaeth Saesneg, Llyfrau am Gymru, Recordiau, Cardiau a Phosteri, ac ati.

**AR YR IS-LAWR**
Llyfrau Celf, Pensaerniaeth, Ffotograffiaeth Sinema, Printiadau.

# Pum Mlynedd am Baned o Dê

**Dwi wedi cael llond bol ar grwydro strydoedd Caerdydd yn chwilio am le cynnes i gael paned ar ddiwrnod gwlyb, ar ôl treulio'r prynhawn yn bustachu drwy'r siopau. Ond, daeth gwaredigaeth, ym mherson cyngor dinas Caerdydd a chorfforaeth Heron, sy wedi cytuno i wario £22 miliwn ar ddatblygu canol Caerdydd.**

Ac ymhen pedair blynedd, bydd canol y brifddinas wedi'i weddnewid, a mi fedrwn eistedd ar "piazza" cyfandirol, wedi'i haddurno gan blanhigion ecsotig, yn sipian Campari a soda — a hynny mewn gwisg nofio, petawn i'n ddigon dewr, gan y bydd system rheoli gwres ym mhob 'arcade' newydd. Bydd yr 'arcades' newydd, gyda'u piazzas a'u seddau cyffyrddus, a'u trigain a chwech o siopau newydd sbon, yn gyfochrog a Stryd y Frenhines yn cysylltu Frederick Street gyda Working Street. Ond mi fyddan nhw bedair gwaith yn lletach na'r 'Queen's Arcade' neu'r 'Royal Arcade,' a chan ei fod yn fwriad adeiladu chwech "kiosk" a dwy dafarn, mi gewch ddewis coffi neu rywbeth dipyn cryfach i'w lymeitian yng nghysgod y coed palmwydd. O'r cyfanswm o £22 miliwn, mae Cronfa Bensiwn y Bwrdd Glo yn buddsoddi £10 miliwn, a chorfforaeth Heron, sy'n cynrychioli consortium o gwmniau yn cyfrannu £12 miliwn, gyda chyngor y ddinas yn gwario hyd at bedair miliwn ar brynu tir.

Yn ogystal a'r siopau newydd, mae rhai siopau sy wedi hen ennill eu plwy yn Stryd y Frenhines yn ehangu eu tir — bydd Marks and Spencers, Boots a Woolworths yn gwthio nôl i gyfeiriad Charles St., Frederick St., a Plymouth St.

Ac un o'r atyniadau mawr fydd siop Debenhams newydd, aml-adrannog, ar dri llawr, ar gornel Frederick Street a Hill Street.

Mae'r Swyddfa Gymreig hefyd yn cyfrannu tuag at weddnewid y brifddinas wrth roi miliwn o bunnau tuag at adeiladu Neuadd Gyngerdd newydd sbon, a fydd, yng ngeiriau'r Ysgrifennydd Gwadol, Mr. John Morris "yn gaffaeliad mawr i fywyd diwylliannol Cymru."

Bydd hon ar safle'r maes parcio yn Working Street — gyferbyn a'r llyfrgell a drws nesa i siop SWEB. Mi fydd hi'n cael ei hadeiladu uwchben y siopau, gyda grisiau o'r stryd islaw yn arwain at y fynedfa. Bydd lle i gynulleidfa o ddwy fil, gyda chyfleusterau addas i gerddorfa o gant ac ugain, a chôr o gant o aelodau. I gerddgarwyr methedig, mae lifft arbennig ac ugain o fannau yn y neuadd i osod cadeiriau olwyn. Ond, er mor uchelgeisiol yw'r cynllun, go brin y bydd y neuadd wrth fodd calon ffyddloniaid yr opera yn y brifddinas, gan na fydd adnoddau i berfformio operau ynddi.

Bwgan mawr canol y ddinas ar hyn o bryd, yn enwedig i reiny sy am daro heibio yn ystod yr awr ginio, yw prinder llefydd parcio. A mae'n debyg y bydd lle i 500 yn llai o geir erbyn y cwblheir y gweddnewidiad. Problem arall sy'n poeni siambr fasnach y ddinas yw y bydd rhai o'r siopau yn methu denu tenantiaid.

Ond, os y gwireddir breuddwyd y cynllunwyr, mi fydd y siopau'n agor erbyn 1981, gyda 1600 o swyddi ychwanegol i'r brifddinas yn sgil y datblygiad. Ac er mwyn sicrhau y bydd yr adeiladau newydd yn ymdoddi i gymeriad cynhenid Caerdydd — er efallai ei bod hi'n anodd iawn adnabod hwnnw ar adegau — bydd y cyfan mewn carreg Bath gyda thoeau o lechen Cymru.

MENNA RICHARDS'



## CANU'N IACH YN YR AMGUEDDFA

Cyflwynodd Syr Adrian Boult, y cerddor enwog, naw cyfrol arbennig o weithiau cerddorol i'r Amgueddfa Genedlaethol. Rhwymwyd pob cyfrol yn gelfydd yng Ngwasg Gregynog, Powys, yn y tridegau. Fe'u cyflwynwyd i Syr Adrian yn wreiddiol gan Gôr Gregynog fel arwydd o'i werthfawrogiad am ei waith yn arwain yn y pum Gŵyl Gerdd gynta a gynhaliwyd yng Ngregynog rhwng 1933-1937.

Y mae'r cyfrolau'n cynnwys gweithiau corawl gan Vaughan Williams, Holst, Elgar, Byrd, Bach a Brahms. Roedd Syr Adrian, ynghyd â Gustav Holst a Walford Davies, yn ymwelydd cyson â'r gwyliau cerddorol yng Ngregynog pan drowyd y Neuadd yn ganolfan i'r celfyddydau gan y ddwy chwaer Gwendoline a Margaret Davies. Cynhyrchwyd yno hefyd nifer o gyfrolau hardd tan i'r wasg orffen ym 1939. Yn ddiweddarach, ym 1952 a 1963, cyflwynodd y ddwy chwaer eu casgliadau gwerthfawr o ddarluniau a cherfluniau i'r Amgueddfa Genedlaethol.

★★★★★★★★★



# O'r Ganolfan

**CÔR**
Bydd Côr Aelwyd Caerdydd, sydd eisoes wedi gwneud marc iddo'i hun, yn ymarfer bob nos Iau, am 7.30, yn y Ganolfan. Arweinydd y Côr yw Gareth Glynne Davies, ac mae croeso i bawb (dan 30) ymuno a'r côr egniol hwn.



**LLADRON**
Gan fod cymaint o dorri i mewn i'r Ganolfan yn ddiweddar mae'r Warden am newid pob clo. Felly os oes gwir angen allwedd arnoch chi cysylltwch â'r Warden yn syth.

**AELODAETH**
Aelodaeth y Ganolfan yw £1 y flwyddyn i'r rhai sy'n dal yn yr ysgol, a £2 i bawb arall.

**COFFI**
Cofiwch am y caban goffi sydd yn y Ganolfan. Yma gallwch ymlacio'n llwyr wrth yfed coffi gorau'r ddinas.

**MISTAR URDD**
Cofiwch fod Siop Mistar Urdd yn ymweld â'r Ganolfan — am wythnos — o ddydd Llun, 26ain o Fedi ymlaen. Bydd y siop ar agor bob nos, felly dyma'ch cyfle chi i ddethol eich anrhegion Nadolig mewn pryd!

**SWYDDFA**
Wrth ymweld â Swyddfa'r Ganolfan (y Drws cyntaf ar y dde) gallwch edmygu o hirbell sustem ffeilio penigamp y Warden. Dymunwn bob llwyddiant iddo ar ddatrys y côd.

**UWCH ADRAN**
Bydd yr Uwch Adran yn cyfarfod bob Nos Lun yn y Ganolfan. Arweinydd yr Adran yw Cen Williams. Dyma rai o weithgareddau'r Gaeaf:
- Twmpath Mr Urdd.
- Gymnasteg.
- Nofio.
- Merlota.
- Taith Beiciau — Yn ystod mis Hydref.


**AELWYD**
Bydd yr Aelwyd yn cyfarfod bob Nos Wener. Croeso i bawb sydd dros 14.

**DRAMA**
Peidiwch ag anghofio'r penwythnos ddrama a gynigir ichi gan y Ganolfan. Ar Hydref 1af yn Theatr Bute (Coleg Cerdd a Drama) cewch gyfle eto i weld RIFIW criw yr Aelwyd. Wedyn, ar Hydref 2il, bydd Cwmni Drama'r Aelwyd yn perfformio "Pethau Brau" yn Theatr Sherman.



*Catrin, Llinos, Hanna, Sioned, Gareth, Patrick ag Eric, yn cael seibiant wrth fedd Guto Nyth Brân ar benwythnos gwersylla yr Uwch Adran yn Llanwyno.*

# I'R GANOLFAN



# NEWYDDION CWM RHYMNI



## CASGLU'R PUM HILL

Pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerffili yn 1950 ni chafwyd fawr ddim cymorth ariannol o gyfeiriad y brifddinas — a hynny wrth gwrs oherwydd y costau rhesymol o gynnal yr Wyl yn y cyfnod hwnnw. "Ceiliog y Gwynt" oedd testun yr englyn yng Nghaerffili ac mae'n amlwg fod y ceiliog hwnnw wedi newid ei gyfeiriad dros y chwarter canrif ddiwethaf ac, erbyn hyn, gyda'r Eisteddfod yng Nghaerdydd rhaid ymestyn cylch y casglu. Mae Caerffili a gweddill Cwm Rhymni eisoes wedi cychwyn ar y gwaith o geisio sicrhau pum mil o bunnoedd.

Mae'r pwyllgorau lleol ar hyd y Cwm wrthi'n cynllunio gweithgareddau dros y Gaeaf. Mae'n siwr y bydd y Trysorydd lleol, Gwilym Owen, Rheolwr Banc y Midland, Caerffile, yn brysur nid yn unig yn cyfri'r arian ond hefyd yn ymddangos mewn cyngherddau lleol gan ei fod eisoes wedi cynnig ei wasanaeth i bob cylch!

Os hoffech gysylltu'ch cyfraniad i'r Eisteddfod â'r Gronfa yng Nghwm Rhymni yna gofynnir i chwi ei anfon i Gwilym Owen gyda sieciau wedi'u talu i 'Eisteddfod Caerdydd, Cronfa Cwm Rhymni'.

## GWEITHGAREDDAU'R GAEAF.

Yng Nghaerffili mae'r Gymdeithas Gymraeg, Merched y Wawr, y Cylch Diwylliannol a mudiadau eraill i gyd yn cynnig rhaglenni diddorol dros y gaeaf gyda rhywbeth at ddant pawb. Unwaith eto eleni mae'r Gymdeithas Gymraeg yn paratoi taflen arbennig yn cynnwys manylion am bob gweithgarwch Gymraeg yn y cylch dros y flwyddyn. Mae'r wybodaeth o ddiddordeb arbennig i bobl sydd newydd symud i'r ardal ac i'r llu o ddysgwyr. Gellir derbyn copi trwy cysylltu â Chyd-Ysgrifennydd y Gymdeithas, Bryn Jones, 27 Cydweli Court, Hendredenny, Caerffili (Ffôn: 867850).

## BEIRDD Y CILIE

Y dyddiad cyntaf i'w nodi yw nos Lun, Medi 19, pan fydd T. Llew Jones yn ymweld â Chaerffili i draddodi darlith ar y testun 'Beirdd y Cilie'. (T. Llew Jones gyda llaw a enillodd ar gystadleuaeth yr englyn a nodwyd uchod. Cynhelir y cyfarfod am 7.15 p.m. yn Ysgol Gymraeg Caerffili dan nawdd y Gymdeithas Gymraeg mewn cydweithrediad â Chyngor Celfyddydau De-Ddwyrain Cymru. Yn ystod ei arhosiad yn y cylch fe fydd yn ymweld hefyd ag Ysgol Gymraeg Rhymni ac Ysgol Gynradd Pengam i siarad am ei waith gyda'r plant.

## NEWID YR IAITH

Mae Bethel, Capel yr Annibynnwyr, Caerffili, wedi mabwysiadu trefn newydd yn yr Ysgol Sul — sydd hyd yn hyn wedi'i chynnal drwy'r Saesneg. Mae nifer o bobl ifainc y capel wedi cychwyn ar gofnodau fel athrawon yr Ysgol ochr yn ochr â'r athrawon mwy profiadol, felly mae anghenion y plant Cymraeg ar di-Gymraeg yn cael eu diwallu trwy gynnal rhai dosbarthiadau Cymraeg a rhai Saesneg. Dywedodd y Parchedig Eirian Rees, sydd â gofal rhan amser am yr achos ym Methel, ei fod yn fyddiog y byddai'r dren newydd yn gweithio ac yn llwyddo i oresgyn y broblem iaith.

## NEWID TY

Mae cryn dipyn o fynd a dod mewn tref fel Caerffili yr amser hon o'r flwyddyn ac. Mae teuluoedd Gareth a Morfydd Huws a Gareth a Menna Roberts wedi symud— y ddau ohonynt i Barc St. Catwg, Penyrch — yr Huwsiaid i Plot 115 a'r Robertsiaid i 7 Brodeg.

GARETH ROBERTS


Wythnos Mistar Urdd
Medi 26 i 30

Llun - Twmpath Uwch Adran
Mawrth- PARTI ADRANNAU
Gwener - DISGO'R AELWYD

Fe fydd Siop Mistar Urdd ar agor BOB nos yn ystod yr wythnos

Welai chi yng Nghanolfan yr Urdd-iawn!



TREGAMPAU

Cyfres newydd ar nos Sadwrn sy'n rhoi cyfle i bawb o bob oed gymryd rhan mewn cyfres o raglenni cystadleuol rhwng trefi a phentrefi Cymru. Bydd y rhaglen gyntaf yn y gyfres ar HTV Cymru nos Sadwrn, 24 Medi am 6.30p.m., ac yn y rhaglen hon tro Llandeilo yn Nyfed a Wrecsam yng Nghlwyd yw hi i fentro i'r maes. Bydd y cyfan dan ofal medrus Dai Jones.

HTV CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd

# Gwaelod y Garth

Yn yr un ardal a phentrefi mwy adnabyddus fel Ffynnon Daf, Tongwynlais, Radur, Creigiau a Phentyrch mae pentre o'r enw Gwaelod-y-Garth. Mae nifer o bobl yn gwybod am y lle ond cymharol ychydig sydd wedi bod yno. Does dim rhyfedd, mewn gwirionedd, gan na ellir dweud fod yno ddim crair arbennig i dynnu ymwelwyr i'r pentref ei hun. Ond er hynny mae Gwaelod-y-Garth yn le diddorol iawn. Mae'n un o'r ychydig bentrefi sydd ar ol yng Nghyffiniau Caerdydd sydd ddim wedi colli ei Gymreictod nai gymeriad.

Mewn pentrefi eraill o gwmpas y Brifddinas mae capeli wedi gorfod ildio i'r dylifiad Seisnig, maent wedi cael eu gorfodi i droi iaith y cyfarfodydd yn Saesneg neu wedi gorfod cau'r drysau yn derfynol. Mae'n dda gweld fod yna ymdrechion yn cael eu gwneud mewn ardaloedd fel Y Wenfo a Llanbedr y Fro i ail-afael yn yr arfer o gynnal gwasanaethau Cymraeg yn yr ardaloedd hynny. Ond nid dyna'r achos yng Ngwaelod-y-Garth ers bron i ganrif a hanner y mae Bethlehem wedi bod yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal fel canolfan addoli drwy gyfrwng y Gymraeg ac fel aelwyd gynnes i'r bywyd cymdeithasol.

Mae gwahoddiad agored i bawb i ddod i ymuno gyda ni ym Methlehem. Gallaf eich sicrhau y bydd croeso cynnes i chi yno. Mae gwasanaethau yn cael eu cynnal bob Sul, am hanner awr wedi deg yn y bore ac am chwech yn yr hwyr. Cynhelir Ysgol Sul am hanner awr wedi dau yn y prynhawn. Erbyn hyn y mae dros hanner cant o blant â'u henwau ar y llyfrau ac mae'r rhif yn cynyddu.

Ar nos Fercher, am hanner awr wedi chwech, mae Adran yr Urdd yn cyfarfod yn y festri. Mae'r Adran i blant rhwng 8 ac 11 oed. Am hanner awr wedi saith y mae'r Uwch Adran yn cyfarfod ac i blant dros II mae honno. Mae croeso mawr i unrhyw blentyn ymuno â ni yn y gweithgareddau yma.

Mae gennym hefyd Gymdeithas Capel sy'n cyfarfod unwaith y mis. Fe fydd y tymor yn dechrau ar yr ugeinfed o Fedi pan fydd y Bonwr Pedr Macmullen yn rhoi darlith ar 'Cyfraniad Y Parchg. R.G. Berry i'r Ddrama Fer'.

Ym Methlehem ceir Eglwys sy'n nodedig oherwydd iddi gadw'i awyrgylch gartrefol a gwledig. Dyna un rheswm ymhlith llawer pam yr ydym yn estyn gwahoddiad cynnes i chwi ymuno â ni yn ein gwaith a'n gymdeithas mewn pentref bach hyfryd ar ffiniau Caerdydd.

RHYS TUDUR

## COFRESTRU YNG NGHAERFFILI

Rhoddwyd croeso brwd i Steffan Rhys, mab Del a Ieu Williams, Caerffili, yn rhifyn diwethaf y *Dinesydd*. Yn anffodus nid yw'r croeso mor frwd yn swyddfa Cofrestru Plant, Caerffili. Dywedwyd wrth y tad hawddgar nad oedd modd cofrestru Steffan yn Gymraeg. Felly rhaid oedd teithio cryn bellter i Swyddfa Cofrestru arall, arwyddo "Datganiad" yno, ac yna ddychwel i'r Swyddfa yng Nghaerffili gyda'r "Datganiad". Cafwyd y ffurflen, o'r diwedd, yn Gymraeg, ond gwrthododd y Swyddfa dalu costau teithio'r tad blinedig!

## DANIEL DONIOL

Daniel, newydd gael ei bedair oed, yn gweld y coroni yn y Barri: "Mami, oes brenhines 'da ni 'nawr hefyd?"

# ENNILL TIR YN Y DE-DDWYRAIN

**Mae'n siŵr ein bod ni i gyd, rieni Cymraeg sy'n byw yn jyngl concrid y De-Ddwyrain gweithfaol yma yn wynebu'r problemau o godi ein plant yn ddwyieithog o bryd i'w gilydd. Eto'i gyd symudwn i ddim yn ôl i feysydd gwyrdd a Chymreictod naturiol y Gorllewin.**

Beth bynnag a ddywed Adfer, 'rwy'n teimlo'n fwy-fwy taw yma yn y De poblog mae calon y genedl yn curo gryfaf. Yma mae'r adfer yn mynd ymlaen — ceisio arbed y trai trist mae Adfer yn ei wneud.

A dweud y gwir dydy codi plant yn ddwyieithog yn yr ardal hon ddim yn anodd. 'Rwy'n teimlo'n drist iawn pan welaf dad a mam sy'n siarad cystal Cymraeg â chi a minne yn methu rhoi'r cyfoeth o ddwyieithogrwydd i'w plant. Mae 'na gymaint o ganllawiau i'w helpu. 'Rwy'n diolch yn feunyddiol am Rydfelen a'r Ysgolion Cynradd Cymraeg. Pa athrawon ysgolion Cyfun Saesneg fyddai'n fodlon abetthu wythnos o'u gwyliau Haf i fynd 'nôl i'r ysgol i gynnal cwrs gloewi iaith i'w disgyblion newydd? Mae llwyr ymroddiad a dyfalbarhâd athrawon ein hysgolion Cymraeg yn galondid mawr i bob un ohonom ni. Fel, yn yr un modd, y mae'r cannoedd sy'n gweithio'n ddygn a diwyd mewn ysgolion eraill gyda dysgwyr.

'Roeddwn yn drist iawn i ddarllen llythyr Neil ap Siencyn yn 'Y Cymro' beth amser yn ôl, yn beirniadu disgyblion Rhydfelen am siarad Saesneg a Chymraeg bratiog a'i gilydd.

Pan es i mofyn Lisa, fy merch, adre o Gwrs Haf Rhydfelenynghyd a dau hogyn bach arall o Gaerffili, roedd 'na ganu a sgwrsio a chwerthin Cymraeg hollol naturiol gyda'r tri ar y ffordd adre. Ac yna daeth amser ffarwelio â'r hogyn bach cynta, a'i fam yn agor drws y car yn wên ac yn groeso i gyd. "Did you have a good time, love?" gofynnodd.

Roedd swyn Rhydfelen wedi'i thorri! Cartref uniaith Saesneg oedd ganddo. Iaith yr ysgol yw Cymraeg iddo fe, wedi'r cyfan. Iaith cariad a chysur a cherydd yw'r Saesneg.

Rwy'n cofio mynd a dosbarth o blant saith oed am drip ysgol i San Ffagan pan oeddwn yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Caerffili, a hwythau'n synnu a rhyfeddu fod na bobl yn medru siarad Cymraeg y tu allan i furiau'r ysgol.

Ydy, mae'n wir fod treigladau a chystrawenau'r plant yma'n wallus ar adege, ond beth yw'r ots, fe ddaw rheiny gyda dyfal barhâd. Yn ara deg mae ennill tir wedi'r cyfan. Ac os yw hi'n gwbl dderbyniol i drigolion Cwm Tawe i anwybyddu'r treiglad trwynol, pam na allwn ni derbyn fod tafodiaith newydd sbon yn datblygu ym a yn y Dwyrain?

"Ma' peth gyda Lisa obiti safio lle", medde Sian-Elin ni ryw ddiwrnod. Cyfieithiad o "Lisa's got a thing about saving space". Rhydfeleneg pur. Yr unig beth a ellir gwneud yw cywiro'n amyneddgar. Dyfal barhâd sy eisie, a thipyn o hiwmor.

Ac mae hi'n bwysig argyhoeddi trigolion cynhenid y De-Ddwyrain hefyd o'u treftadaeth traddodiadol. Allwn ni ddim didoli'n hunanin oddi wrthyn nhw. Ni wedi'r cyfan yw'r bobl ddwad.

Pan oedd Dafydd ni yn un bach fe ddysgodd siarad yn gynnar iawn yn ei fabandod, ac yn llefaru (Cymraeg yn unig) yn rhugl cyn ei fod yn ddwyflwydd.

"Can 'e talk yet?" gofynnodd gwraig leol i mi a'i phlentyn hithau, ryw chwe mis yn hŷn na Dafydd yn ei chael hi'n anodd i roi dau air (annealladwy Saesneg) wrth ei gilydd. Eglurais ei fod yn lefaru'n eglur iawn — yn y Gymraeg. "No, no". meddai hithau "Can 'e talk proper yet?"

Sy'n gwneud i mi sylweddoli mor bwysig ydy llwyr ddwyieithogrwydd. Hynny yw fod ein plant yn siarad Cymraeg A Saesneg graenus. Does dim rhinwedd mewn siarad Saesneg bratiog.

Ydw, rwy'n falch mod i'n byw yn y De-Ddwyrain. Yma o leia' rydyn ni'n gweld ein bod yn ennill rhywfaint o dir. Er fod y frwydr yn un hir a chaled. Efallai fod yn rhaid colli'r iaith er mwyn ei gwerthfawrogi ddigon i'w hennill yn ôl. Ond eto'i gyd fydden ni dim rheitiach o wneud hynny heb wybod fod Cymreictod y Gorllewin YNO'N asgwrn cefn i ni.

EIRY PALFREY

# GWLAD YR ADDEWID



**Tel Aviv, mwy na thebyg, ydy'r lle cyntaf a wêl y mwyafrif o ymwelwyr ag Israel, gan fod prif Faes Awyr y wlad wrth ymyl. Dyna'r lle cyntaf i mi ei weld hefyd. Enw hyfryd, onid e, yn rhithio rhyw ddelwedd heulog a heddychlon. Siom fawr, felly, oedd darganfod mor salw, prysur ac anniddorol yw mewn gwirionedd — hen dwll o le a bod yn onest!**

Mae'r adeiladau yno bron i gyd yn ddiweddar ac anneniadol, yn enwedig y lluoedd o fflatiau di-gymeriad a geir ymhobman. Bu'n rhaid i'r Israeliaid godi nifer fawr o anheddau i'r ymfudwyr a lifai i mewn yng nghyfnod yr ail ryfel byd; doedd dim llawer o amser nac arian i fedru poeni gormod am eu hansawdd. Yn anffodus, mae'r rhan fwyaf o drefi'r wlad, mwy neu lai, yr un mor ddiolwg — ar wahân, wrth gwrs, i Gaersalem a Haifa.

Y mae Caersalem yn wahanol iawn. Yn un peth mae rheol bendant na cheir defnyddio dim ond y garreg leol i adeiladu, ac un hardd iawn yw hi hefyd. Yn ail, y mae i'r hen ddinas gymeriad gwbl unigryw — y muriau anferth o'i hamgylch, cromen euraidd addoldy mawr y Mohamediaid (The Dome on the Rock), y Mur Gorllewinol a'r cymhlethdod o strydoedd cul, amgaedig a'u siopau bach dirif. Prin y gellwch rodio ar hyd un o'r rhain heb i ryw siopwr eich llusgo i mewn!

Peth arall sy'n neulltuoli Caersalem yw'r ffaith ei bod yn ddinas sanctaidd a chanolfan i dair crefydd. O ganlyniad fe geir nifer fawr o addoldai nodedig ac o sefydliadau o bwys cenedlaethol i'r Israeliaid. Un o'r rhain yw'r Amgueddfa er cof am erchyllterau a ddioddefodd yr Iddewon yn yr ail ryfel byd. Peth rhyfedd, efallai, eu bod am gofio'r fath beth o gwbl ond, yn bendant, maen nhw'n gwneud ymdrech i dro saros yn ymwybodol o'u hanes ac, yn bennaf, o'r rhyfel. Mae diwrnod coffa blynyddol er mwyn cadw trychineb y rhyfel mewn cof—tra bod y cyfan yn mynd yn anghof gan weddill y byd, gan gynnwys yr Almaen. Ymddengys eu bod yn ceisio nerth a phenderfyniad oddi wrth ymwybyddiaeth o'u gorffennol er mwyn gwrthsefyll pwysau'r sefyllfa bresennol.

Ac y mae'r sefyllfa heddiw yn un go ddrwg yn Israel; mae costau byw yn uchel iawn a chwyddiant tua deugain y cant. Fel canlyniad mae cael deupen llinyn ynghŷd yn anodd i'r rhan fwyaf o bobl. Mae hyn i gyd, yn y bôn, yn ganlyniad i dreuliau aruthrol cynnal y fyddin a phrynu arfau. Rhaid i'r bobl ifanc wasanaethu yn y lluoedd arfog, y bechgyn am dair blynedd a'r merched am ddwy. Ar ben hyn gorfodir y dynion i wneud cyfanswm o fis o waith milwrol bob blwyddyn.

Mae'n debyg mai'r anawsterau hyn sy'n esbonio agwedd y bobl, ond rhaid imi gyfaddef nad oeddwn yn eu cael yn fodau hoffus iawn, yn hytrach, braidd yn ddigroeso'r ymddangosent. Ond y syndod mwyaf, efallai, oedd sylweddoli bod y mwyafrif llethol o drigolion Israel yn anghrefyddol. Hwyrach bod y rhyfel, ymhlith pethau eraill, yn gyfrifol am hyn hefyd. Mae mwy o angen crefydd, o bosibl, ar Iddewon gweddill y byd oherwydd mai dyma'r unig beth pendant sy'n eu nodweddu fel cenedl. Ar y llaw arall, mae'r Israeliaid yn sicr o'u hunoliaeth heb grefydd — mae ganddyn nhw wlad, iaith, ymreolaeth, a sefydliadau cymdeithasol.

Yn naturiol y mae hyn yn codi pwynt arall. Ai gwlad yr Iddewon yn unig yw Israel? Gwell imi bwysleisio cyn mynd ymhellach mai gwlad ddemocrataidd yw hi ac y caiff Iddew ac Arab hawliau pleidleisio cyfartal. Er hynny mae'n ddigon clir nad oes neb, nac Iddew nac Arab, yn edrych ar holl drigolion y wlad fel un bobl, ac nid oed neb chwaith yn gwneud unrhyw ymdrech i'w huno. Gwladwriaeth Iddewig yw amcan yr Iddewon a'u hagwedd yw mai eu gwlad nhw'n unig yw Israel. I ryw raddau, felly, mae'n nhw'n tueddu i ystyried yr Arabiaid yn estroniaid. Yn wir byddai'n dda gan yr Iddewon weld yr Arabiaid i gyd yn gadael am y gweldydd Arabaidd. Mae'n anodd iawn eu beio am hyn yn y sefyllfa sydd ohoni.

Argraff bersonol yw hon a chynhwysa cryn dipyn o gyffredinoli. Byddai'n dda gen i glywed, trwy golofnau'r Dinesydd, farn pobl eraill am Israel.

DIC JAMES


WENALLT —
Y CWMNI AROBRYN



Ymlaciwch yn un o'n cerbydau
moethus 20-51 sedd

**CERBYDAU WENALLT**

*(Perchennog J.M. CROOKES)*

**SWYDDFA DOCYNNAU**
**Ffôn Caerdydd 31174**

(Gwasanaeth 24 awr)

**WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE,**
**CAERDYDD.**


# aPÊL am gefnogaeth

Mae'r tymor rygbi wedi dechrau unwaith eto, ac i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd mae hwn am fod yn dymor pwysig iawn, gan fod y Clwb yn dathlu ei ddengmlwyddiant. Rydym yn gobeithio, felly, y bydd y tymor yn un llwyddiannus — ar y maes chwarae ac yn gymdeithasol.

Mae'r Clwb ar ei dyfiant o hyd, ac eleni, am y tro cyntaf, mae rhaglen wedi ei pharatoi ar gyfer TRI thîm. Hoffem estyn gwahoddiad i unrhyw un sydd a diddordeb mewn chwarae'r gêm i ddod i ymarfer gyda ni yng Nghanolfan Chwaraeon Genedlaethol Cymru, Gerddi Soffia, bob nos Lun am 7.15 o'r gloch.

Hyd yn hyn mae'r tîm cyntaf wedi chwarae dwy gêm a'r ail dim un gêm ac, er i'r Clwb golli'r dair, mae'n gynnar yn y tymor eto. Ond dyma ymbil arnoch chi, Gymry Caerdydd, i ddod i'n cefnogi ni ar feysydd Llandâf unrhyw brynhawn Sadwrn rhydd sydd gyda chi.

Yn anffodus mae lle i wella ar ochr gymdeithasol y Clwb. Mae hyn yn dipyn o broblem gan nad oes gennym ganolfan ein hunain ar hyn o bryd ond, er gwaetha' hyn, mae rhaglen gymdeithasol wedi ei llunio ar gyfer y tymor. 'Rydym yn y gorffennol wedi cael cefnogaeth llawer ohonoch chi'r bobl ifanc yn y dawnsfeydd a'r nosweithiau cyn gemau rhyngwladol, sydd erbyn hyn yn draddodiad bron, ond apeliwn yn daer eto i chi gefnogi ein nosweithiau cymdeithasol. Gwyliwch allan amdanynt, a gobeithio y cawn ymateb brwd gennych, ac y gwelwn lawer ohonoch yn ystod y misoedd nesaf.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cieglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.* C840